



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

**CYNLLUN
CYDRADDOLDEB
STRATEGOL CYNGOR
BWRDEISTREF SIROL
MERTHYR TUDFUL AR
GYFER 2016-2020**

	Tud
ADRAN 1: RHAGAIR	3
ADRAN 2: CYFLWYNIAD	4
ADRAN 3: DEDDF CYDRADDOLDEB 2010	7
ADRAN 4: NODAU CYDRADDODEB	9
ADRAN 5: NOD CYFLOG CYFARTAL/RHYW Y PERSON	13
ADRAN 6: Y BROSES ADOLYGU, YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI	14
ADRAN 7: GWYBODAETH BERTHNASOL	16
ADRAN 8: ASESU EFFAITH	17
ADRAN 9: YMWYBYDDIAETH Y CYFLOGWR	18
ADRAN 10: YR IAITH GYMRAEG	19
ADRAN 11: DATGANIAD AR GYFLENWI, CYHOEDDI A MONITRO CANLYNIADAU	20
ADRAN 12: MANYLION CYSWLLT	21
<u>ATODIAD 1</u>	22
CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL \$ CYNLLUN GWEITHREDU AR NODIADAU CYDRADDODEB AR GYFER 2016\$2020	
<u>ATODIAD 2</u>	40
Y CYSYLLTIAD RHWNG NODAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL Y CYNGOR AR GYFER 2016\$2020 A BIL LLESIANT CENEDLAETHU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 A BIL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014	

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o gyflwyno ei ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2016\$2020. Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw gwella cyfleoedd cyfartal yn ein cymuned drwy gyflenwi gwasanaethau, cyflogaeth, comisiynu, arweiniad a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r gweithgareddau yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn dangos ein hymrwymiad cryf yn glir o ran cael gwared ar bob ffordd o wahaniaethu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pherthnasoedd da ymhlith pobl sy'n ymweld â, byw a gweithio ym Merthyr Tudful.

Fel Cyngor, mae gennym ddyletswydd i fynd i'r afael â herio gwahaniaethau a difreintiededd fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel rhag aflonyddwch a bod gan bawb fynediad at wasanaethau o ansawdd. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn ein helpu ni i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y deilliannau cadarnhaol i bobl ym Merthyr Tudful a bod ein gwasanaethau'n hygyrch ac yn cael eu cyflenwi'n effeithiol ac yn effeithlon.

Ein Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful yw: "Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a'i barchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn."

Bydd y Cyngor yn gweithio at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy gyfrwng ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau a chomisiynydd a chyflogwr. A byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Bydd y Cyngor yn defnyddio'i rôl fel arweinydd i hyrwyddo cydraddoldeb a gwahaniaethu a rhannu syniadau ac arfer da gyda phartneriaid a darparwyr gwasnaeth eraill. Byddwn yn parau i fireinio a datblygu ein gwasanaethau, gan gynnwys systemau monitro unigol i'n helpu ni i gael gwell dealltwriaeth o'n staff a'r cymunedau lleol ehangach a'n galluogi ni i ddiwallu angehnon amrywiol pawb.

Y Cyngorydd Brendan Toomey
Arweinydd y Cyngor

Gareth Chapman
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Ernie Galsworthy
Hyrwyddwr Cydraddoldebau'r Cyngor

Gweledigaeth Cydraddoldebau'r Cyngor ar gyfer Merthyr Tudful

Mae Merthyr Tudful wedi ei lleoli yn Rhabarth Blaenau'r Cymoedd gydag arwynebedd o tua 11,100 hectar. Mae tua un rhan o bump o'r Fwrdeistref Sirol oddi fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan adael ryw 8,668 hectar o dir o dan reolaeth cynllunio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth o ryw 59,065 ac o'r rheini mae 44,000 yn preswyllo yn y brif dref, Merthyr Tudful, sy'n gweithredu fel prif ganolfan fasnachol, manwerthu a gwasanaethau'r Fwrdeistref Sirol a Rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Yn hyn o beth, mae'r brif dref hon, Merthyr Tudful, yn cynnwys pencadlys gweinyddu (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol), y prif ardaloedd siopa, y rhan fwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, ysbyty, a llawer mwy o wasanaethau a chyfleusterau o'r radd uwch sy'n gwasanaethau'r anheddiadau amgylchynol. Caiff gweddill y boblogaeth ei dosbarthu ymhlith wyth anheddiad cyd\$ddibynnol a leolir ymhellach i'r de ar hyd cymoedd afonydd Taf a Thaf Bargoed.

Mae Merthyr Tudful yn cyflawni rôl strategol allweddol yng nghanol rhabarth Blaenau'r Cymoedd, gan fanteisio ar lefelau uchel o hygyrchedd yn sgil ei lloeliad ar groesffordd yr A470 (T) a'r A465 (T) coridorau trafndiaeth strategol yn y gogledd, a'r A470 (T) a'r A472; coridorau trafndiaeth strategol yn y de. Saif y Fwrdeistref ryw 25 munud yn unig i'r gogledd o Gaerdydd a choridor yr M4. Ar hyn o bryd mae 1,499,547 o bobl a 679,400 o swyddi oddi fewn i'r Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

Mae'r Cyngor yn gweithredu trefniadau Arweinydd a Chabinet gweithredol a gefnogir gan bum aelod o'r Cabinet. Mae gan y Cyngor 11 o ranbarthau etholiadaol sy'n cael eu cynrychioi gan 33 o Gynghorwyr etholedig. Ceir Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Prif Swyddogion, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyllid yn goruchwyllo rheolaeth strategol o fusnes y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 2,500 o gyflogeion.

Ein Gweledigaeth ar gyfer Merthyr Tudful yw y bydd yn fan ble:

- Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais.
- Mae pobl yn byw, gweithio, ac yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn.
- Mae pobl yn ymweld, mwynhau ac yn dychwelyd yno.

Ein Huchelgais yw i fod:

- **Y perfformiwr gorau**; a nodweddir gan wasanaethau da a rhagorol.
- **Yn gynaliadwy**; gan drefnu adnoddau ffisegol, dynol ac arianol yn effeithiol.
- **Yn awdurdod ag iddo enw da** am sicrhau gwelliannau i bobl leol.

Er mwyn cyflawni ein huchelgais rydym yn sicrhau gwelliannau o ansawdd ar hyd a lled y sefydliad drwy:

- Ddatblygu diwylliant perfformiad sy'n gleient ganolog ac yn canolbwyntio ar gyflenwi deilliannau gwell.
- Gwella ymgysylltiad a chyfathrebu mewnol ac allanol.
- Gwella ein defnydd o wybodaeth ar gyfer dadansoddi a gwella ansawdd.
- Datblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu ein gweithlu.
- Gweithio'n effeithiol gydag eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon ac economaidd.

Caiff pethau sy'n cyfrif eu mynegi ar hyd a lled y saith prif flaenoriaeth ganlynol:

- Codi safonau cyrhaeddiad.
- Diwallu anghenion plant sy'n agored i niwed.
- Datblygiad Economaidd.
- Cyflogadwyedd.
- Hyrwyddo Annibyniaeth.
- Hyrwyddo ffordd o fyw actif.
- Amgylchedd Cynaliadwy.

A'u cyflenwi drwy 4 Thema:

- Codi safonau.
- Gwella llesiant.
- Twf Economaidd.
- Datblygiad Cynaliadwy.

Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol ac rydym yn gweithio i sicrhau bod hyn yn cael ei arddangos wrth gyflenwi gwasanaethau a chyflogaeth.

Ein Gweledigaeth cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful yw:

“Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a'i barchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn.”

Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd a chyflogwr, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn gosod allan:

- Agwedd y Cyngor at:
 - Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
 - Gydraddoldeb ac Amrywiaeth i weithlu'r Cyngor.

- Cynllun gweithredu sy'n arddangos sut y bydd y Cyngor yn rheoli, cynllunio a phrifffrydio'r Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar hyd a lled y Cyngor.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn sicrhau fod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n cyfri i'r gymuned a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor; a bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn cael eu cyflenwi'n effeithiol.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn gosod allan nodau cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016\$2020 a gaiff eu trafod mewn manylder pellach yn Adran 4 y Cynllun hwn.

Mae hefyd yn ofynnol ein bod yn paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn yn nodi'r cynnydd a wnaed ar hyd a lled pob agwedd o'n gwaith cydraddoldeb.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn cymryd lle'r cyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol, gydag un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei wneud yn haws i bobl ei deall a chydsynio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau ar wahân ynghylch cydraddoldebau hil, anabledd a rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

Mae'r ddyletswydd newydd cyffredinol yn cynnwys y nodweddion canlynol a ddiogelir:

- Oed.
- Ailbennu rhywedd.
- Rhyw.
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd.
- Anabledd.
- Beichiogrwydd a mamolaeth.
- Cyfeiriadedd rhywiol.
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred.

Mae'n gymwys i briodas a pharneriaeth sifil, ond dim ond o ran bod y gofyniad yn talu'r sylw dyledus at yr angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Beth yw dyletswydd gyffredinol?

Bwriad dyletswydd gyffredinol yw sicrhau fod awdurdodau cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy gydraddoldeb sy'n cynyddu a pherthnasoedd da yn eu gweithgareddau dydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi eu adeiladu i mewn i gynllunio polisiau a chyflenwi gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu. Bydd hyn yn cyflawni gwell deilliannau i bawb.

Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn talu'r sylw dyledus ar yr anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Cynyddu cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodwedd berthnasol a ddiogelir a'r rheini nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogleir a'r rheini nad ydynt.

Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben bras y dyletswyddau cyffredinol yng Nghymru yw i helpu cyrff a restrir wrth iddynt berfformio dyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywedd.

Beth yw'r dyletswyddau penodol?

Caiff dyletswyddau penodol yng Nghymru eu gosod allan yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011.

Mae dyletswyddau penodol yng Nghymru'n cynnwys:

- Nodau.
- Cynlluniau cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltiad.
- Asesu effaith.
- Gwybodaeth Cydraddoldeb.
- Gwybodaeth Cyflogaeth.
- Gwahaniaethau cyflog.
- Hyfforddiant staff.
- Caffaeliad.
- Adrodd yn flynyddol.
- Cyhoeddi.
- Adroddiadau Gweinidogion Cymru
- Adolygiad.
- Hygyrchedd.

Yr hyn mae'r ddyletswydd yn ei ofyn o'r nodau cydraddoldeb

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- Gyhoeddi nodau i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Cyhoeddi datganiad sy'n gosod allan y camau y mae wedi eu cymryd neu yn bwriadu eu cymryd a pha mor hir y mae'n disgwyl iddi gymryd i ddiwallu pob Nod.
- Gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at ddiwallu ei nodau ac i fonitro effeithiolrwydd ei ddull gweithredu.
- Rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth gydraddoldeb berthnasol y mae'n ei dal wrth ystyried beth ddylai ei nodau cydraddoldeb fod.

Nodau ynghylch gwahaniaeth mewn cyflog

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- Dalu sylw dyledus i'r angen bod nodau yn mynd i'r afael ag achosion o unrhyw wahaniaeth cyflog yr ymddengys ei fod yn debygol o fod yn berthnasol i unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir.
- Cyhoeddi nod cydraddoldeb i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyflog yn sgil rhyw'r person neu gyhoeddi rhesymau pam na chafodd hynny ei wneud.

Adolygu a diwygio nodau

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- Adolygu ei nodau cydraddoldeb o leiaf un waith bob pedair blynedd.

NODAU CYDRADDODEB

Fel gofyniad i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, cytunodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2012\$16. Mae'r Ddeddf a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y Cyngor yn adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Nodau bob pedair blynedd o leiaf.

Nodau Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2012\$2016

Caiff Nodau Cydraddodeb y Cyngor ar gyfer 2012\$2016 eu rhestru yn y tabl isod ynghyd â'r Themâu perthnasol:

<u>Themâu</u>	<u>Nodau cydraddodeb</u>
Cyflogaeth	<u>Nod cydraddoldeb 1</u> Gwella cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc a grwpiau eraill a dan gynrychiolir.
Mynediad	<u>Nod cydraddoldeb 2</u> Gwell mynediad at wasanaethau a chyfeusterau o ansawdd.
Ymgysylltiad	<u>Nod cydraddoldeb 3</u> Gwella cydlyniant cymunedol i holl aelodau cymdeithas drwy feithrin perthnasoedd da rhwng grwpiau sy'n cael eu diogelu.
Trosedd Casineb	<u>Nod cydraddoldeb 4</u> Gwella rhoi gwybod am Drosedd Casineb a Thrais Domestig a bodlonwydd gyda'r modd yr ymdrinir â hyn.
Cyflog Cyfartal/ yn ôl rhyw y person	<u>Nod cydraddoldeb 5</u> Sicrhau tegwch o ran cyflogau ledled y Cyngor Bwrdeistref

Mae cynnydd o ran cyflenwi'r nodau cydraddoldeb hyn yn cael ei adrodd fel rhan o Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor sy'n cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cabinet.

Fel rhan o adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012\$2016 (a drafodir yn fanylach yn Adran 6) dynodwyd bod Nodau Cydraddodeb 1 i 4 yn derbyn sylw drwy'r cynlluniau, adroddiadau a ffrydiau gwaith canlynol a restrir isod. Felly, er mwyn osgoi dyblygu o ran monitro ac adrodd yn ôl ar y Nodau Cydraddodeb hyn, nid ydynt wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016\$2020.

Bydd Nod Cydraddoldeb 5 (Cyflog Cyfartal/ yn ôl rhyw y person) yn parhau i gael ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016\$2020 a chaiff ei drafod yn fanylach yn Adran 5.

Mae Nodau cydraddodeb 1 i 4 ar gyfer 2012\$2016 yn cael sylw drwy ddilyn y Cynlluniau. Adroddiadau a'r Ffrydiau Gwaith canlynol:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Themâu'r Cyngor ar dudalen:

- Codi safonau
- Gwella llesiant.
- Cynllun Twf Economaidd.
- Amgylchedd Cynaliadwy.
- Cynllun Ingegredig Sengl Merthyr Tudful.
- Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol.
- Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Camdrin Domestig Llywodraeth Cymru.
- Fforwm Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol – Cynllun Strategol ar y Cyd.
- Adroddiad Blynyddol (Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor) i Weithrediaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru.
- Ffrydiau gwaith ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Nodau Strategol Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016/2020

Fel rhan o Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor cafodd ei ddynodi fod cael Gweledigaeth Cydraddoldebau i Ferthyr Tudful yn hanfodol er mwyn gosod allan Uchelgais yr Awdurdod Lleol i ddileu gwahaniaethu / aflonyddu, cynyddu cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da. Mae'r Weledigaeth Cydraddoldebau canlynol wedi cael ei datblygu ar gyfer Merthyr Tudful:

“Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a'i barchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn.”

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd a chyflogwr, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghyfarledd a gwella Llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Caiff y Weledigaeth hon ei chyflenwi drwy'r Nodau Cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2016/2020 sydd wedi cael eu dynodi fel blaenoriaethau i'r Cyngor fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff yr Nodau hyn eu cefnogi gan dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol y gellir ei weld mewn mwy o fanylder yn Adran 7.

<u>Themâu</u>	<u>Nodau cydraddoldeb</u>
Ymgysylltiad cymunedol	<u>Nod cydraddoldeb 1</u> Gosod llais dinasyddion yng nghalon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor i ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a godwyd	<u>Nod cydraddoldeb 2</u> Cefnogi a hwyluso hyfforddiant Cydraddoldeb a chyfleoedd dysgu fel bod y staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori Cydraddoldeb fel rhan o'u rôl.
Deall ein Staff a'n Cymunedau	<u>Nod cydraddoldeb 3</u> Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.
Cyflog Cyfartal/ yn ôl rhyw y	<u>Nod cydraddoldeb 4</u> Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws Cyngor Bwrdeistref

person	Sirol Merthyr Tudful.
--------	-----------------------

Cafodd y nodau cydraddoldeb hyn eu hysgrifennu mewn partneriaeth â Swyddogion y Cyngor a phartneriaid a byddant yn cael eu cyflenwi drwy gynllun gweithredu manwl y gellir dod o hyd iddo yn Atodiad 1.

Mae pob un o'r nodau cydraddoldeb wedi ei strwythuro o gwmpas y penawdau canlynol yn y cynllun gweithredu:

- Nod.
- Rhesymau dros ddewis yr Nod.
- Deiliant(deilliannau).
- Effaith ar grwpiau nodweddion a ddiogelir.
- Mesur llwyddiant, Ffynhonnell Data and Swyddog(ion) Arweiniol / Partneriaid.
- Gweithrediadau CAMPUS i gyflenwi'r Nod, Swyddog(ion) Arweiniol / Partneriaid a Dyddiad Cyflenwi.
- Risgiau/Rhwysterau allweddol rhag weithredu/cyflenwi'r Nod, Gweithred(iadau) i Leddfu'r Risgiau a Pherchennog(ion) y Risg.

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd Gweledigaeth a Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016\$2020 yn cyfrannu at gyflenwi'r saith Nod Llesiant (a ddangosir yn y diagram isod) sydd wedi eu gosod allan ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn arbennig 'Cymru fwy cyfartal' a 'Chymru â chymunedau cydlynol'.



Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn arddangos sut mae Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016\$2020 yn dolennu â'r canlynol:

- Y saith Nod Llesiant ac Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy sy'n cael eu gosod allan ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

NOD CYFLOG CYFARTAL/YN ÔL RHYW Y PERSON

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddynodi'r nod cyflog cyfartal/yn ôl rhyw y person canlynol ar gyfer 2016\$2020, a gaiff ei gefnogi gan gynllun gweithredu yn Atodiad 1:

- Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws y Cyngor Bwrdeistref

Mae'r Cyngor wedi dynoi hwn fel nod cydrddoldeb oherwydd:

- Mae Cyflogwyr Cenedlaethol yn edrych ar oblygiadau Cyflog Byw Cenedlaethol ar hyn o bryd gyda'r golwg y bydd angen ailfodelu'r meingefn cyflogau.
- Mae angen cau'r bwloch cyflogau rhwng y rhywiau.
- Mae'n gwneud y Cyngor yn fwy deniadol fel cyflogwr i'r gymuned.
- Mae'n gwneud y Cyngor yn fwy deniadol i gyflogeion presennol i aros gyda'r Cyngor.
- Wrth i ragor o drafodaethau a newidiadau cenedlaethol ymddangos mae angen i ni sicrhau ein bod yn cadw at degwch e.e. Isafswm Cyflog Cenedlaethol, bwloch cyflog rhwng y rhywiau.

Wrth gyflenwi'r Nod hwn bydd y Cyngor yn gallu arddangos y canlynol:

- Bod gennym strategaethau a chynlluniau teg, agored a thryloyw i gyflogau, graddio, gwobrwyo a recriwtio fel ein bod yn cyrraedd gostyngiad yn y bwloch cyflog.
- Bod strwythurau cyflog a graddio ac arferion recriwtio'r Cyngor yn trin yr holl staff a'r ymgeiswyr yn gyfartal, waeth beth fo'u rhyw.

Grŵp Gorchwyl a'i Gorffen y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Er mwyn cefnogi adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol a Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2012\$2016 cafodd Grŵp Gorchwyl a'i Gorffen ei sefydlu.

Aelodaeth

Roedd y Grŵp Gorchwyl a'i Gorffen yn cynnwys Hywyddwr Cydraddoldebau'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli grwpiau o'r Gymuned sy'n anodd cyrraedd atynt.

Daeth y rhanddeiliaid allweddol hyn o'r Loteri Fawr – Prosiect Llais Cymunedol MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Gwell Rhwydweithio ac Ymgysylltiad Ynghyd), sy'n darparu cyfle i aelodau o gymunedau ar yr ymylon godi eu llais o ran dylanwadu ar bolisi darparwyr gwasanaeth cyhoeddus a phrosesau cynllunio a chyflenwi. Mae Portffolio Merthyr yn cynnwys y saith prosiect canlynol, bob un yn cael ei arwain gan wahanol sefydliadau gwirfoddol:

1. **Gweledol/Visible** – Dod â phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) at ei gilydd a hyrwyddo'u llais ym Merthyr Tudful.
2. **Focal Point** – Ymgysylltu â gweithwyr mudol, hwyluso cynhwysiant a chydlyniant, gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn y gymuned ehangach.
3. **Pontydd/Bridges** – Adeiladu hyder a sgiliau gyda'r gymuned Sipsiwn / Teithwyr a chreu cyfleoedd am ymgysylltiad mwy effeithio gyda'r gwasanaethau lleol.
4. **Un Llais/One Voice** – Eiriolaeth ac ymbweru ar gyfer pobl anabl i gytuno ar weithredu ac ymgysylltiad ar y cyd â darparwyr gwasanaethau.
5. **Perthyn (Belonging)** – Prosiect rhwng y cenedlaethau, yr ifanc a phobl hŷn sy'n byw mewn tai cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar bolisiau tai'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Cyflenwir yng Nghaedraw, Y Gurnos a Threlewis.
6. **POSSIB 7** Prosiect celfyddydol dwyieithog i ymgysylltu â dynion oed gwaith, rhieni a phlant ym meysydd iechyd, lles, cyflogaeth ac addysg. Darperir yng Nghlwstwr y Gogledd, Cymunedau yn Gyntaf.
7. **Up and Coming 7** Prosiect cyfryngau ieuencid ble mae gohebwy'r ifanc yn cyfleu neges gadarnhaol am bobl ifanc a Merthyr Tudful ac yn cyfathrebu â darparwyr gwasanaethau a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Effaith

Gwnaeth ymgysylltiad â'r rhanddeiliaid allweddol hyn ddarparu dull gweithredu cyd\$ gynhyrchiol i adolygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac ychwanegu gwir werth a her.

Roedd adborth oddi wrth Arweinwyr Prosiect MAGNET yn gadarnhaol iawn o ran eu bod yn teimlo eu bod wedi cyfranogi i helpu i lywio a llunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig.

Uwch Dîm Reoli a Grŵp Llywio Rheoli Newid

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y nodau cydraddoldeb ar gyfer 2016\$2020, cafodd y Nodau eu rhannu gydag Uwch Dîm Reoli a Grŵp Llywio Rheoli Newid y Cyngor i'w hystyried, gwneud sylwadau arnynt a chynnig adborth.

Hyb Ymgysylltu Cymunedol Cwm Taf

Fel rhan o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu am y nodau cydraddoldeb ar gyfer 2016\$2020 defnyddiodd y Cyngor Hyb Ymgysylltu Cymunedol Cwm Taf, a roddodd gyfle i breswylwyr, partneriaid a sefydliadau eraill i ddweud eu dweud am y Nodau.

Ymhlith y dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad am y nodau cydraddoldeb oedd y canlynol:

- Gwefan corfforaethol y Cyngor.
- Tudalen Facebook gorfforaethol y Cyngor.
- Tudalen Facebook Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful.
- Cyfrif Twitter corfforaethol y Cyngor.
- Trydar oddi wrth @cwmtafconsult.
- Wales Online.
- Merthyr Express.
- Panel Dinasyddion.
- Anfonwyd e\$byst i'r rhanddeiliaid a'r sefydliadau canlynol:
 - MAGNET: portffolio o brosiectau a'u rhwydweithiau perthnasol a grwpiau mynediad.
 - Partneriaid Byrddau Gwasanaeth Lleol.
 - Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful.
 - Cystyrau Cymunedau yn Gyntaf.
 - Undebau Llafur.
 - Cyngorau Eraill Cymru.
 - Fforwm Pobl Hŷn.
 - Fforwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
 - Fforwm Plant a Phobl Ifanc.

GWYBODAETH BERTHNASOL

Cafodd y wybodaeth berthnasol ganlynol ei defnyddio i lywio adolygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012\$2016:

- Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor.
- Adolygiad Gwella Cydraddoldeb gan Gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gafodd ei gyflawni gan y Cyngor ac Adolygu gan Gymheiriaid olynol a ymgwymerwyd gan Archwiliad Mewnol.
- Ymgysylltiad â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Grŵp Gorchwyl a'i Gorffen.
- Nodau cydraddoldeb oddi wrth Gyngorau eraill Cymru a sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- Canllaw ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Adroddiadau a data o Bortffolio MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Gwell Rhwydweithio ac Ymgysylltiad Ynghyd).
- Data Trosedd Casineb a Cham\$drin Domestig.
- Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol.
- A yw Cymru'n Decach? Adroddiad; Heriau sy'n Ymddangos.
- Polisi Gwasanaethau Rheilffordd Hygyrch Cymru Anabl, 2010.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol ac Oedran, 2015.
- Ystadegau Priodas a Phartneriaeth Sifil, Cyfrifiad 2011.
- Ystadegau Cenhedlu Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013.
- Amcangyfrifon Poblogaeth Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl Awdurdod Lleol ac Ethnigrwydd, 2011.
- Ystadegau Crefydd a Chred, Cyfrifiad 2011.
- Arolwg Integredig o Gartrefi, Llywodraeth Cymru, Hunaniaeth Rywiol yn ôl Ardal a Statws Hunaniaeth, 2013.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol a Rhyw y Person, 2014.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Siaradwyr yr Iaith Gymraeg, 2014.

Y Broses

Rhan fawr o fewnblannu cydraddoldeb i mewn i gyflenwi gwasanaeth yw drwy Broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor. (Asesiad E ar G). Mae holl adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor yn agored i'w craffu drwy'r Broses Asesiad E ar G. Mae'r broses hon wedi ei strwythuro i ddynodi anghydraddoldeb posibl. Pan gaiff mater ei ddynodi bydd ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn digwydd gyda'r defnyddwyr gwasanaeth i fesur hyd a lled safbwyntiau a barn.

Mae ffurflen a chanllaw Asesiad E ar G wedi eu hadolygu mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac fe gafodd ei ledaenu ar gyfer ei weithredu o Ebrill 2015. Mae'r ffurflen yn haws ei chwblhau, yn fwy penodol ac wedi ei gefnogi gan ganllawiau cam wrth gam sy'n hawdd eu dilyn.

Pan fydd y ffurflen Asesiad E ar G wedi ei chwblhau mae'n ofynnol bod awduron yr adroddiad yn dal gafael er y deilliannau yng nghorff adroddiad y Cabinet/ Cyngor. Os oes Asesiad E ar G llawn wedi ei gwblhau mae disgwyl hefyd i awduron yr adroddiad ddal gafael ar y wybodaeth ganlydol yng nghorff yr adroddiad:

- Effeithiau cadarnhaol.
- Effeithiau negyddol.
- Ceisiadau presennol i fynd i'r afael â'r materion.

Ni chaiff unrhyw Adroddiad Cabinet na'r Cyngor ganiatâd i gael ei gyflwyno heb fod ffurflen Asesiad E ar G wedi ei chwblhau yn cyd\$fynd ag ef.

Mae'r broses Asesiad E ar G hefyd yn rhan annatod o Raglen Rheoli Newid y Cyngor.

Monitro

Caiff pob adran sydd wedi ei chwblhau o'r Asesiad E ar G a Chydraddoldeb yn Adroddiad perthnasol y Cabinet/Cyngor ei hadolygu am sicrwydd ansawdd cyn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w hystyried am gymeradwyaeth.

Mae'r Asesiad E ar G hefyd yn gofyn bod awdurdon yn:

- Dogfennu dyddiad adolygiad nesaf yr Asesiad E ar G ; ac
- Os nad yw adolygiad yn ofynnol bod esboniad pam.

Canlyniadau Cyhoeddi

Caiff pob Asesiad E ar G ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a godwyd yw'r thema berthnasol ar gyfer y nod cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2016\$2020:

- Cefnogi a hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu am Gydraddoldeb fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori Cydraddoldeb fel rhan o'u rôl.

Mae'r Cyngor wedi dynodi hyn fel nod cydraddoldeb oherwydd:

- Bod angen i agwedd corfforaethol y Cyngor at hyfforddiant cydraddoldeb gael ei ddatblygu ymhellach i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb.
- Mae hyfforddiant a dysgu'n rhan bwysig o gyflawni gwelliant mewn cydraddoldeb.
- Mae angen sicrhau bod yr holl staff, y cynghorwyr a sefydliadau partner yn ymwybodol ac yn deall gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Wrth gyflawni'r Nod hon bydd y Cyngor yn gallu arddangos y canlynol:

- Bod y staff, y Cynghorwyr a sefydliadau partner yn derbyn hyfforddiant ar Gydraddoldeb.
- Bod y Cyngor yn hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle.
- Bod y Cynghorwyr yn cael eu grymuso â mewnwleidiad, gwybodaeth a dealltwriaeth am y gwahanol gymunedau maen nhw'n eu cynrychioli yn y Fwrdeistref Sirol.

Asesu Perfformiad

Caiff y nod cydraddoldeb hwn ei gyflawni gan gyfres o weithrediadau sy'n cynnwys adnewyddu hyfforddiant am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Caiff y Nod hwn hefyd ei gefnogi gan fesurau llwyddiant allweddol i asesu a yw wedi cael ei gyflenwi.

Adroddir yn ôl am berfformiad y Nod hwn fel rhan o Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor.

Mae Hyfforddiant a Datblygu Proffesiynol Parhaus yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer Gwerthuso Perfformiad ac Un i Un. Mae hyn yn galluogi dynodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi'r cyflogai.

YR IAITH GYMRAEG

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi cymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n gosod gorfodaeth ar gyrfwr cyhoeddus i gydsynio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Yn y bôn, mae gan y Mesur yr un gofynion â Deddf yr Iaith Gymraeg: **trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.**

Mae'r iaith Gymraeg yn elfen allweddol yn agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ddilyn yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- Mae hawl gan unigolion i ymdrin â ni yn y Gymraeg.
- Rhaid gosod y Gymraeg yn gyntaf i'w darllen (i'r chwith o'r Saesneg).
- Hawliau iaith i'r staff.
- Mae ansawdd y gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig.
- Rhaid i ni gynnig gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg er mwyn rhoi dewis o iaith.

DATGANIAD AR GYFLENWI, CYHOEDDI A MONITRO CANLYNIADAU

Bydd Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016\$2020 yn cael eu monitro a'u cyflenwi drwy Gynllun Gweithredu manwl, sydd yn atodedig fel Atodiad 1. Mae'r Cynllun Gweithredu'n dynodi Gweithrediadau CAMPUS a dyddiad cyflenwi ar gyfer cyflenwi'r Nodau.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a fydd yn darparu:

- Gwybodaeth am gyflenwi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Cynnydd o ran y Nodau Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu, ac effeithiolrwydd y camau sy'n diwallu'r nodau hynny.
- Gwybodaeth monitro Cyflogaeth.
- Manylion am wybodaeth berthnasol ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech dderbyn copi o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn unrhyw fformat arall neu wedi ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â:

Mr Kerry O'Donovan

Rheolwr Risg a Chydraddoldebau Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

Ffôn (01685) 725298

E\$bost: equalities@merthyr.gov.uk

Gwefan y Cyngor: www.merthyr.gov.uk

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 7 CYNLLUN GWEITHREDU
NODAU CYDRADDOLDEB AR GYFER 2016/2020**Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful**

“Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a’i barchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn.”

Bydd y Cyngor yn gweithio at gyflawni’r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd a chyflogwr, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldeb a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Caiff y Weledigaeth hon ei chyflenwi drwy gyfrwng y Nodau Cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2016\$2020:

<u>Thema</u>	<u>Nodau cydraddoldeb</u>
Ymgysylltiad cymunedol	<u>Nod cydraddoldeb 1</u> Gosod llais dinasyddion yng nghalon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a’i ddefnyddio i helpu’r Cyngor i ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a godwyd	<u>Nod cydraddoldeb 2</u> Cefnogi a hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu am Gydraddoldeb fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori Cydraddoldeb fel rhan o’u rôl.
Dealltwriaeth O’n Staff a’n Cymunedau	<u>Nod cydraddoldeb 3</u> Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb am ein cyflogeion a’n cwsmeriaid, a fydd yn helpu’r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.
Cyflog Cyfartal/ yn ôl rhyw y person	<u>Nod cydraddoldeb 4</u> Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws Cyngor Bwrdeistref

NOD CYDRADDOLDEB 1

THEMA: YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

Nod	<u>Nod cydraddoldeb 1</u> Gosod llais dinasyddion yng nghalon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor i ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
